

Gwybodaeth i Gleifion



Hysbysiad

29 Ebrill 2005

**Deall cyngor yr
NPSA a'r MHRA**

Mae'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) yn helpu'r GIG i ddarparu gofal iechyd diogel i bawb. Mae'r wybodaeth hon yn esbonio cyngor gan yr NPSA a gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) ar frechlynnau Repevax a Revaxis a gwneud yn siŵr bod yr un iawn yn cael ei roi i blant.

Sicrhau arfer mwy diogel gyda brechlynnau Repevax[®] a Revaxis[®]

Brechlyn atgyfnerthu cyn-ysgol yw Repevax[®] sy'n amddiffyn yn erbyn difftheria, tetanws, y pas a pholio.

Brechlyn atgyfnerthu i'r ardegau yw Revaxis[®] sy'n amddiffyn yn erbyn tetanws, difftheria a pholio.

Mae'r ddau frechlyn hyn yn ddiogel ac yn effeithiol. Er hynny, mae plant wedi derbyn yr un anghywir gan fod enwau'r ddau frechlyn, eu label a'u pecynnu yn debyg.

Er bod achosion o gymysgu rhwng y ddau yn brin, mewn adroddiad diweddar i'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) cafodd 93 o blant eu brechu gyda Repevax yn lle Revaxis. Cafwyd adroddiadau eraill i'r NPSA am staff gofal iechyd bron iawn â rhoi'r brechlyn anghywir.

Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei hysgrifennu ar gyfer rhieni sy'n cael eu hysbysu bod eu plentyn wedi derbyn y brechlyn anghywir.

Beth sy'n digwydd os oes camgymeriad yn digwydd

Os yw rhywun yn ei ardegau'n derbyn Repevax yn lle Revaxis, byddant wedi derbyn imiwneiddiad yn erbyn difftheria, tetanws a pholio. Byddant hefyd wedi derbyn dogn o frechlyn y pas sydd fel arfer yn cael ei argymhell ar gyfer plant cyn-ysgol. Mae'n annhebygol, fodd bynnag, y byddant wedi cael eu niweidio o ganlyniad. Os bydd plentyn cyn-ysgol yn derbyn Revaxis yn lle Repevax, byddant wedi derbyn imiwneiddiad yn erbyn difftheria, tetanws a pholio, ond nid yn erbyn y pas. Fodd bynnag, nid oes brechlyn unigol ar gyfer y pas ar gael, felly er mwyn amddiffyn yn erbyn y pas efallai y bydd dogn o Repevax yn cael ei gynnig i'ch plentyn. Bydd eich meddyg neu'ch nyrs yn trafod hyn gyda chi.

Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch y brechlyn a roddwyd i'ch plentyn, gofynnwch i'r person sy'n gyfrifol am eu triniaeth.



Beth mae'r GIG yn ei wneud am hyn?

Beth mae'r GIG yn ei wneud am hyn?

Bydd pecynnu brechlynnau Repevax a Revaxis yn cael eu newid er mwyn ei gwneud hi'n haws i staff ddweud y gwahaniaeth rhwng y ddau frechlyn.

Mae'r NPSA a'r MHRA wedi dweud wrth bob sefydliad GIG yng Nghymru a Lloegr i wneud y pethau canlynol.

Mae'n bosibl bod rhai sefydliadau eisoes yn gwneud y pethau hyn:

- 1 Sicrhau fod trefniadau yn eu lle i wneud yn siŵr bod staff yn dewis y brechlyn cywir ar gyfer eich plentyn.
- 2 Gwneud yn siŵr fod staff yn gwybod y bydd pecynnu'r brechlynnau hyn yn newid.
- 3 Edrych ar sut y maent yn storio ac yn rheoli brechlynnau a chryfhau gweithdrefnau lle mae angen gwneud hynny.
- 4 Parhau i adrodd i'r NPSA am unrhyw broblemau lle gellid drysu rhwng cynnyrch meddyginiaethol. Os yw plentyn wedi cael adwaith i frechlyn, dylai staff adrodd hyn i'r MHRA.

Mwy o wybodaeth am y brechlynnau

Brechlyn atgyfnerthu cyn-ysgol yw Repevax ac argymhellir ei fod yn cael ei roi i blant rhwng tair blwydd a phedwar mis oed a phum mlwydd oed. Mae'n amddiffyn yn erbyn difftheria, tetanws, y pas a pholio.

Brechlyn atgyfnerthu i'r ardegau yw Revaxis, a brechlyn i blant deg oed a hŷn nad ydynt wedi derbyn unrhyw fath o imiwneiddiad o'r blaen. Mae'n amddiffyn yn erbyn tetanws, difftheria a pholio.

Gwaith pellach gan yr NPSA a'r MHRA

Mae'r NPSA a'r MHRA yn dal i weithio gyda'r diwydiant fferyllol i wneud dylunio cynnyrch meddyginiaethol yn fwy diogel, ac felly i leihau'r perygl o gamgymeriadau'n cael eu gwneud gan fod cynnyrch yn edrych yn debyg i'w gilydd neu fod ganddynt enwau sy'n swnio'n debyg.

Rhagor o wybodaeth

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y brechlynnau yr ydych chi neu rywun yr ydych yn ei adnabod yn mynd i'w derbyn, gofynnwch i un o'r bobl sy'n eich trin. Gallwch hefyd ffonio Galw Iechyd Cymru ar 0845 4647.

Mae'r fersiwn o'r wybodaeth hon anfonwyd at staff y GIG ar gael ar wefan yr NPSA, sef www.npsa.nhs.uk/advice

Am ragor o wybodaeth am yr NPSA, ewch i www.npsa.nhs.uk

Am ragor o wybodaeth am yr MHRA, ewch i www.mhra.gov.uk